

## Ewch ar y daith: Sir Benfro chwedlonol

Wrth i chi fynd ar daith olygfaol dros ben o gwmpas ffyrdd Sir Benfro, fe ddowch ar draws ein gorffennol cyn [hanes a'n mythau, chwedlau a saint enwog](#).

### Dyma rai o'r chwedlau i gadw golwg amdanynt:

Credwyd bod **Dewi Sant** wedi gwneud amryw wyrthiau yn ystod ei oes, a chaiff ei bortreadu fel arfer yn sefyll ar dwmpath bach gyda cholomen Duw ar ei ysgwydd. Ymddengys bod Dewi'n pregethu ym mhentref Llanddewibrefi pan laniodd colomen wen ar ei ysgwydd. Yna cododd y tir lle safai i ffurfio bryn, fel bod y dorff o'i amgylch yn gallu ei glywed yn llawer gwell. Yn y 12fed ganrif datganodd y Pab bod dwy bererindod i [Eglwys Gadeiriol Tyddewi](#) yn Sir Benfro yn gywerth â phererindod i Rufain; tair i Dyddewi'n cyfateb i un i Jerwsalem.



Yn ôl Gerallt Gymro roedd bont hudol unwaith dros Afon Alun ger [Tyddewi](#) a allai siarad. Dywedwyd ei bod yn ddarn mawr o graig folcanig leol a oedd yn ddeg troedfedd o hyd, chwe throedfedd o led ac un droedfedd o drwch. Roedd wedi treulio'n llyfn gan y lliaws traed a'i croesai oherwydd mai dyma'r ffordd y cludwyd eirch i fynwent yr eglwys i'w claddu. Roedd Gerallt wedi clywed bod corff yn cael ei gludo drosti ar un achlysur, pan ddechreuodd y bont siarad yn ddirybudd. O hynny ymlaen ni fyddai pobl leol yn cludo cyrff dros y garreg, gan fod yn well

ganddynt fynd drwy'r afon yn hytrach. Daeth y bont i ddwyn yr enw Llechlafar.

A yw'r Gwyddelod yn ddyledus i Ddewi Sant am eu **gwenyn**? Roedd y mynach Modomnoc yn un o gyfoeswyr Dewi Sant. Penderfynodd fynd i Iwerddon, ac fe laniodd haid o wenyn ar y cwch gydag ef. Y sôn yw eu bod wedi darparu bwyd iddo yn ystod ei Genhadaeth yn Iwerddon ond sylweddolodd, oherwydd mai gwenyn Cymreig oeddent, y dylid mynd â nhw'n ôl i Gymru. Fodd bynnag, aeth y gwenyn gydag ef dair gwaith i'r Iwerddon hyd nes i Ddewi sanctaidd, ar y trydydd tro, eu bendithio cyn anfon Modomnoc ar ei ffordd gyda'r gwenyn gan ddweud 'O hyn ymlaen dylai gwenyn ffynnu yn Iwerddon, ac ni ddylent gynyddu mwyach yng Nglyn Rhosyn'. Ac fe ymddengys bod y gwenyn wedi lleihau yn Nhyddewi ond wedi ffynnu yn Iwerddon o hynny ymlaen.



Adroddwyd chwedl arall yn cysylltu Cymru ac Iwerddon gan Shemi Wad (James Wade), un da am gelwydd golau, a fu farw yn **Wdig** ger Abergwaun yn 1897. Dywedodd ei fod wedi mynd i bysgota i'r Parrog un diwrnod a rhoi ei lein bysgota braf gyda dwsin o fachau arni yn y dŵr – yna aeth i gysgu. Tra'r oedd yn cysgu ciliodd y llanw, gan adael y bachau a'r abwyd yn y golwg. Ehedodd gwylanod i lawr a llyncu'r cyfan! Yna cododd yr adar, gan fynd â Shemi gyda nhw yn ei gwsg dros Fôr Iwerddon a'i ollwng ym Mharc y Ffenics yn Nulyn. Deffrodd gan feddwl tybed ble'r oedd, ond buan y dealodd ei fod yn Iwerddon. Gwelodd rai

gynnau mawr ar ochr bellaf y parc ac – fel y gwna rhywun – llithrodd i mewn i faril un ohonynt ac aeth i gysgu ar ei union eto. Fodd bynnag, yr hyn nad oedd wedi sylweddoli oedd bod y gynnau'n cael eu tanio bob bore, ac roedd yn dal i gysgu pan gafodd ei saethu allan o'r gwn. Dros y môr yr ehedodd a glanio ar borfa Pencw, yn union uwchlaw ei gartref!

Gwyliwch am y cŵn crac yn [Abergwaun](#) a'r cylch. Ymddengys bod hen longwr oedd yn lletya yng Nghwm Abergwaun yn dychwelyd adref un noson pan ddaeth ar draws y ci du o uffern ar y bont dros Afon Gwaun. Llanwyd ef ag ofn gan lygaid cochion tanbaid y bwystfil wrth iddo lamu tuag ato, yn sŵn cadwyni ac yn rhoi'n uchel. Galwodd y dyn am gymorth

Duw ac, fel y gadawodd y geiriau ei enau, ciliodd y ci, udodd yn uchel mewn cynddaredd a llamodd ymaith. Rhedodd ei ysglyfaeth adref a disgynnodd i'r llawr mewn llewyg.

Teithio i Abergwaun ar y trê? Wel, efallai mai i Sarah Bevan y dylech ddiolch am hynny. Ganed Sarah yn 1756 ac, ymhen hir a hwyr, priododd Thomas Evans a dod yn Sarah Evans. Yn hysbys am ei gallu i ddarogan y dyfodol, dywedodd Sarah un diwrnod ei bod wedi gweld nifer mawr o gerti neu wagenni llwythog yn mynd yn gyflym iawn un ar ôl y llall, a dim bustach na cheffyl yn eu tynnu. Roedd yn ymddangos bod y wagen gyntaf ar dân, gan fod llawer o fwg yn codi ohoni. Roedd hyn yn fwy na chwe degawd cyn dyfodiad injan stêm George Stephenson yn 1825. Maes o law roedd Brunel eisiau ymestyn ei Great Western Railway i Abergwaun ond cafodd ei ddarbwylllo bron i derfynu'r rheilffordd yn [Neyland](#) yn y de. Fodd bynnag, cytunwyd y byddai'r derfynfa'n cael ei throsglwyddo i Abergwaun wedi'r cyfan. Aeth y rheilffordd newydd drwy Gwm Trefgarn, yn union ble'r oedd Sarah Evans wedi darogan.

Arglwydd Normanaidd yn y 13eg ganrif oedd Adam de Rupe, neu Roche, a gododd dŵr gogoneddus castell y **Garn**. Yn anffodus, llwyddodd i dramgwyddo gwrrach leol wrth wneud hynny. Melltithiodd ef, gan ddweud y byddai'n marw o bigiad gwiber o fewn blwyddyn. Mewn arswyd, caeodd Adam ei hun yn ystafell uchaf y castell a gwrthododd adael am 365 diwrnod. Gyda dim ond diwrnod i fynd, gofynnodd i was ddod â choed tân i fyny. Yn cuddio ymysg y ffyn – ie, rydych wedi dyfalu – roedd gwiber, a chyflawnwyd proffwydoliaeth y wrach.

Fe sefydlodd Brynach Sant amryw eglwysi ond, yn anffodus, denodd y rhain ddiafoliaid, ysbrydion drwg a gwrrachod! Fel y digwyddodd, roedd ganddo dipyn o ddawn gyda grymoedd tywyll a meistrolodd hwy, ond dywedodd Duw wrtho am symud i [Ddyffryn Nanhyfer](#). Hyn a wnaeth, gan adeiladu canolfan fynachaid a dod yn gyfaill i Ddewi Sant, ac ymddiddan â'r angylion ar gopa **Carn Ingli**. Ymddengys iddo ddod yn gyfaill i anifeiliaid rheibus ac roedd ganddo flaidd dof yn gofalu am ei fuwch!

Mae hanes cyfareddol **Carn Ingli'n** cynnwys 'bod yn y ffordd' pan drawodd y Capten George Pond a'r Is-gapten Cesare Sabelli y mynydd ar eu ffordd o Rufain i UDA yn 1934. Cafodd y ddau awyrennwr fân anafiadau ond, pan aethant i guro drws ffermdy lleol am gymorth, ni

chawsant fawr o drugaredd gan y perchennog, a feddylodd mai dau dramp oeddent! Y diwrnod canlynol, fodd bynnag, cawsant eu croesawu fel arwyr.

Roedd **Brynberian**, ar Fynydd Preseli, unwaith yn gartref 'afanc', anghenfil dŵr ofnadwy a ymddangosai liw nos i ddwyn defaid a dinistrio tir. Dyfeisiodd y boblogaeth leol gynllun i gael gwared ar y bwystfil, trwy ddefnyddio merch ifanc ddewr fel abwyd i'w ddenu allan, cyn ei ddal a'i ladd. Gallwch ymweld â'i fedd – Bedd yr Afanc – hyd heddiw.

Roedd cewri [Mynydd Preseli'n](#) adnabyddus am eu tymer drwg, a arweiniodd yn aml at frwydro hyd angau gyda'i gilydd. Yn ôl pob golwg, roeddent yn hoff o daflu clogfeini ar ei gilydd mewn cynddaredd, a dyna pam fod gymaint o gerrig yma ac acw'n ddi-drefn dros y bryniau (er bod rhai pobl yn priodoli hynny i weithgaredd rhewlifol filoedd o flynyddoedd yn ô!). Bob yn dipyn aeth nifer y cewri'n llai nes bod tri brawd ar ôl, a ddechreuodd ddadlau dros etifeddu tir eu tad. Diwedd y peth oedd iddynt ladd ei gilydd ac fe'u trowyd yn garreg, ynghyd â'u tad marw. Mae pedwar brigiad creigiog uwchlaw [Pentre Ifan](#) i brofi hynny!

Beth amser yn ôl [roedd dyn yn cerdded ar Fynydd Preseli](#) ger **Foelfeddau** pan gafodd ei lenwi ag ofn rhyfedd. Roedd popeth wedi distewi o'i gwmpas a theimlai fod rhywbeth ofnadwy ar fin digwydd. Edrychodd o'i gwmpas, ond doedd dim ond distawrwydd trwm yn y lle... Yn ddirybudd, teimlai



ei fod yn cael ei wyllo a chwarddodd rhywbeth yn agos ato. Gan deimlo'n benysgafn, eisteddodd a chaeodd ei lygaid a, phan agorodd hwy, gwelodd amryw ddynion bach noeth, blewog. Coblynnod oeddent, yn dal pastynau trwm ac yn cerdded tuag ato, i bob golwg yn anymwybodol ei fod yno. Ceisiodd godi ond teimlai fod rhwymau anweladwy'n ei ddal. Gan sgrechian, caeodd ei lygaid a, phan agorodd hwy unwaith eto, roedd ar ei ben ei hun, heblaw am wŷn, gwenyn a chân yr ehedydd.

Gwnaed y cyhuddiad diwethaf o ddewiniaeth yn Sir Benfro yn [Hwlfordd](#) yn 1699. Ymddengys y cyhuddwyd benyw o'r enw Dorcas Heddin, a ddaeth yn wreiddiol o Swydd Gaergrawnt, o reibio morwyr ar long oedd ar ei ffordd i Virginia, eisiau dial ar y dynion arbennig hynny am ei thwylo – cafodd ei rhoi ar brawf yng Nghastell Hwlfordd.

A gwylwch ger Bwa Coffa **Hen Bont Hwlfordd**, lle dywedir bod ysbryd drwg wedi'i guddio a'i rwymo i aros yno am fil o flynyddoedd. Cyn gynted ag y daw'r amser i ben, yn ôl pob sôn, bydd yr ysbryd yn rhydd i grwydro'r ddaear i boeni pobl unwaith eto.

**Mae gan Sir Benfro gymaint o fythau a chwedlau i chi eu harchwilio. Beth am gymryd eich amser a threulio 48 awr yn Nhyddewi i archwilio mwy ar straeon gwyllt a chelwyddau golau Sir Benfro?**

